Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

—

Legislation, Justice and Constitution Committee

Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565

—

Welsh Parliament
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Jayne Bryant AS
Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

5 Tachwedd 2021

Annwyl Jayne

Y Tribiwnlys Addysg

Yn ystod y cyfarfod a gynhaliwyd gennym ddydd Llun yr wythnos hon, gwnaethom drafod ein hail adroddiad monitro rheolaidd, lle'r ydym yn ystyried ac yn adolygu pynciau allweddol sydd o fewn cylch gwaith y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad. Byddwch yn ymwybodol bod rhai materion sy'n ymwneud â chyfiawnder yn dod o fewn cwmpas ein cyfrifoldebau. Yn sgil hynny, gwnaethom drafod diweddariad a gawsom ar Dribiwnlysoedd Cymru.

Mae adroddiadau blynyddol y rhan fwyaf o Dribiwnlysoedd Cymru ar gyfer 2020/21 bellach wedi'u cyhoeddi, ac rydym yn tynnu'r adroddiadau hyn at sylw'r Pwyllgorau perthnasol yn y Senedd.

Nid yw'r adroddiad blynyddol ar gyfer y Tribiwnlys Addysg ar gael eto. Fodd bynnag, yn absenoldeb yr adroddiad hwnnw, hoffwn dynnu eich sylw at Drydydd Adroddiad Blynyddol Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru, sy'n cynnwys sylwadau ar waith y Tribiwnlys Addysg (y Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig yn flaenorol) dros y flwyddyn ddiwethaf.

Yn y cyfarfod yr wythnos hon, cawsom dystiolaeth hefyd gan Syr Wyn Williams, Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru, ar ei Drydydd Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2020-21, ac rwy'n manteisio ar y cyfle hwn i dynnu eich sylw at y sesiwn honno.

Rydym yn disgwyl i adroddiad blynyddol y Tribiwnlys Addysg fod ar gael yn ystod yr wythnosau nesaf.

Yn gywir,

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd